

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
18 MEDI 2023

Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd
Llun 18 Medi am 11.15am

Yn Bresennol:

Y Cynghorwyr: Rosetta Dolphin (Cadeirydd), Marion Bateman a Richard Lloyd

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Arweinydd y Tîm Trwyddedu (Gemma Potter) a Swyddog y Gwasanaethau
Democratiaidd (Sharon Thomas)

Swyddog Cyfreithiol

Henry Skudra

Ymgeisydd

1. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd a chyflwynodd Aelodau'r Is-
bwyllgor. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r
cais yn cael ei benderfynu.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

**3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 –
YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr
ystyriwr ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12
ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried a
phenderfynu ar gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni (ar y cyd).

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu
gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod
er mwyn galluogi'r panel i ddod i benderfyniad.

4.1 Penderfyniad ar y Cais

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r Ymgeisydd yn ôl, er mwyn
ailgynnull y cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Is-bwyllgor wedi ystyried yr holl wybodaeth, gan gynnwys y manylion am yr euogfarnau, polisiâu'r Cyngor ar euogfarnau a'r canllawiau statudol, yn ogystal â'r eglurhad a dderbyniwyd gan yr Ymgeisydd. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y bydd yr Ymgeisydd yn delio â sefyllfa debyg lle'r oedd wedi derbyn euogfarn o ymosod trwy ddefnyddio trais unwaith eto.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor nifer a natur euogfarnau blaenorol yr Ymgeisydd fel y nodwyd yn yr adroddiad. Er nad oedd yr Ymgeisydd wedi bod o flaen y Llys ers nifer o flynyddoedd, nododd yr Is-bwyllgor y canllawiau mewn perthynas â throsteddu ailadroddus.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor er bod yr Ymgeisydd yn eithaf ifanc ar y pryd, roedd yn dal i fod yn oedolyn, ac yn anffodus aeth ymlaen i barhau i drosteddu. Yn ogystal â hyn, roedd ei euogfarnau mwy diweddar hefyd yn ymwneud â'i allu i yrru a dilyn amodau trwydded ac yswiriant priodol.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn gallu anwybyddu'r canllawiau mewn perthynas â throsteddu ailadroddus nac mewn perthynas â throsteddau o drais.

Felly, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, o ystyried pob posibilrwydd, fod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i feddu ar Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat. Cafwyd penderfyniad unfrydol i wrthod y cais.

4.2 Penderfyniad

Bod y cais yn cael ei wrthod, gan nad oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat o fewn Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Ar ôl darllen penderfyniad yr Is-bwyllgor (fel yr uchod) a chyn cloi'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Ymgeisydd fod ganddo'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, ac y byddai copi ysgrifenedig o'r penderfyniad yn cael ei anfon ato.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.15am a daeth i ben am 12.03pm)

.....
Y Cadeirydd